# Achub y Blaned Un Ysgol ar y Tro

## 1. Cyflwyniad

Ym mis Rhagfyr 2015, arwyddwyd Cytundeb Paris, yn y pendraw gan bob gwlad yn y byd. Yn gyfaddawd rhwng y wyddoniaeth a'r hyn sy'n bosibl i'w gyflawni yn wleidyddol, mae'n dynodi'r llwybr am drawsnewid cyflym i economi bydol sy'n garbon negyddol dros 30 mlynedd. Mae astudiaethau dilynol wedi cynghori fod dau ddegawd gennym ni, nid tri, i fwrw'r targedau hyn. Beth sydd wedi bod yn gwbl amlwg yw y bydd y ddegawd sydd i ddod yn pennu'r cwrs ar gyfer y dyfodol, ac y bydd methu gweithredu nawr yn golygu na fyddwn yn dal i fyny. Dyma ein cyfle olaf. Bydd gweithredoedd casgliadol dynoliaeth dros y ddegawd sydd i ddod yn siapio'r 10,000 o flynyddoedd nesaf.

Mae canlyniadau'r realiti hwn yn dwyn i gwestiwn ein holl fodelau economaidd ynghyd â'r prosesau addysgol sy'n llywio'r genhedlaeth nesaf tuag at ddyfodol na fydd yn bodoli. Roedd Achub y Blaned Un Ysgol ar y Tro yn sylweddoli ar unwaith nad oedd siarad am yr Hinsawdd fel mater yn ddigon bellach, mae'n rhaid i ni osod y thema hon yn ganolog o fewn y cwricwlwm a'i chysylltu â chamau gweithredu sy'n ystyrlon ac yn gymesur. Bydd angen i waith, asesiadau ac uchelgeisiau fod yn unol â'r her anhygoel hon a bydd angen i ddisgyblion gael eu grymuso gyda syniadau a hyder personol i sylweddoli y gallant godi at yr her hon a'i derbyn.

## 2. Her

Mae ysgolion yn araf i newid, maent yn feysydd y gad dwys ar gyfer newidiadau gwleidyddol a chyfeiriadol ynghyd â newid o ran adnoddau, ac mae athrawon yn flinedig ac wedi colli ffydd gan fwyaf oherwydd y newidiadau cyson o fewn addysg. Roedd y prosiect hefyd yn sylweddoli fod cysylltiad annatod rhwng ysgolion a chymunedau a bod angen adlewyrchu gwerthoedd un o fewn y llall. I gyflwyno newid yn effeithiol ac o fewn yr amserlenni a awgrymir, yna mae angen i'r gwaith ddefnyddio'r ysgol fel llwybr i mewn i'r gymuned a'r gymuned fel llwybr i mewn i'r ysgol. Nid oedd unrhyw syniad gennym ni am sut i gyflawni hyn ond mae potensial a phwysigrwydd i archwilio'r posibiliadau hyn.

## 3. Allbynnau

1) Perllan treftadaeth a gardd berlysiau Cae Bodfach. Mae hyn hefyd yn cynnwys llwybr coedlan helyg a nifer o ychwanegiadau eraill.
https://www.youtube.com/watch?v=uV0EQ7ATNZ4 (Taith 4 munud Haf 2019)
https://www.youtube.com/watch?v=PnyLyTCHVAo&t=474s 9 sleid o flynyddoedd niferus o waith gyda'r ysgol a'r gymuned yn y berllan

https://www.youtube.com/watch?v=_Vbddn57zqo Calan Mai! Digwyddiad cymunedol yng Nghae Bodfach mewn cydweithrediad â Chyswllt Celf a Fferm Treflach

Mae Cae Bodfach yn gydweithrediad rhwng Sector39/ Cyngor Tref Llanfyllin/ Ymddiriedolaeth Bodfach/ Cymdeithas Perai a Seidr Cymru/ Cymuned Llanfyllin/ MENCAP ac Ysgol Uwchradd Llanfyllin.
Mae'n cynnwys 100 amrywiaeth o goed ffrwythau treftadaeth, ynghyd â nifer o goed cefnogi o darddiad lleol. Mae yno ardd berlysiau gyda nifer o blanhigion peillio, perlysiau, llifynnau a blodau gwyllt oedd unwaith yn gyffredin. Mae'r ardd yn arddangosfa o fioamrywiaeth, adfywio'r dirwedd, gweithredu cymunedol a mwy. Fe'i dyluniwyd i ostwng llifogydd trwy gynyddu ymdreiddiad dŵr glaw, trydarthu a gwella pridd i ddarparu coridorau bywyd gwyllt ac ardaloedd o gynefinoedd a all greu cilfachau i rywogaethau maen clo.

Mae'r gwaith gyda'r ysgol a'r gymuned ar y prosiect hwn wedi cynnwys tair blynedd gyfan y prosiect, gyda llawer o'r gwaith sylfaenol yn cael ei wneud yn y 2 neu 3 blynedd flaenorol, yn wirfoddol gan fwyaf.

2) Astudiaethau'r Tir TGAU.
Y cysylltiadau cryfaf yr oeddem wedi gallu eu creu gydag Ysgol Uwchradd Llanfyllin a'r meysydd cwricwlaidd oedd gyda'r dosbarth Astudiaethau'r Tir TGAU. Roedd hyn hefyd yn dibynnu ar athro rhagweithiol a brwdfrydig iawn, oedd mewn cyferbyniad â'n profiad ehangach. Rydym yn rhagweld y bydd y cyswllt hwn yn estyn ymhell i'r dyfodol y tu hwnt i'r prosiect.

3) Prosiect cymunedol Bagloriaeth Cymru.

4) Prosiect Podlediad. http://llanfyllin.sector39.co.uk/podcast/
Fel ffordd o gyfleu a chylchredu profiadau'r prosiect, aethom ati i recordio a rhannu 21 o bodlediadau ar draws rhwydwaith ein prosiect.
5) Cyhoeddiadau: cyhoeddwyd dau destun gan y prosiect yn dogfennu profiadau'r prosiect ym mlynyddoedd 1 a 2. Roedd hyn yn cynnwys sylwadau ar gymhelliad ac amcanion y gwaith ynghyd â chyfleu profiadau a deilliannau'r gwaith o fewn yr ysgol a grwpiau cymunedol. Mae'r rhain wedi cael eu cyflwyno.
6) *Small and Slow Solutions.* Defnyddiwyd dyluniad permaddiwylliant gan y prosiect fel methodoleg i symud ac annog yr ysgol a'r gymuned i ymateb yn unol ag amcanion Cytundeb Paris a'r wyddoniaeth sy'n tanategu hynny. Mae'r cyhoeddiad hwn, sy'n 100 tudalen/lliw llawn/200 o ddelweddau, wedi'i ddylunio fel adnodd i helpu gyda'r ddealltwriaeth ymarferol ac i gymhwyso egwyddorion dyluniad permaddiwylliant. Mae'r llyfr yn tynnu ar 5 mlynedd o astudiaethau achos lleol perthnasol yma yng Nghymru, ynghyd â'n partneriaid o Iwganda yn Ysgol Uwchradd Busoga, Kamuli.

Cyhoeddon ni 400 o gopïau i'w dosbarthu'n lleol, i aelodau'r gymuned, cynghorwyr, arweinwyr tref a chymuned, athrawon, addysgwyr, rhieni, grwpiau cymunedol ac unigolion. Mae eisoes yn profi i fod yn offeryn pwerus i ddatblygu syniadau ac wedi cael derbyniad da. (Gweler yr ardystiad gan Gynulliad Cymru).

Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cefnogi'r cyhoeddiad ac fe fydd yn ei argymhell yn eu hail adroddiad blynyddol, sy'n cael ei gyflwyno i bob rhanddeiliad gan gynnwys **pob ysgol yng Nghymru.** Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi creu fersiwn PDF ag eglurdeb is o'r llawlyfr er mwyn ei ddosbarthu ar-lein yn hawdd.

http://www.permaculture.sector39.co.uk/?page_id=2334

Yn ychwanegol at hyn, mae Fforwm Ieuenctid De Affrica eisiau dosbarthu'r fersiwn electronig i'r holl ysgolion sy'n aelodau o fewn undeb cenhedloedd Fforwm Ieuenctid De Affrica (SADC).

7) *BRACE.* Trefnodd y prosiect gyfres o gyfarfodydd agored, sef sgwrs gymunedol ar y thema, Argyfwng Hinsawdd. Roedd hyn yn adlewyrchu datganiad argyfwng Cynulliad Cymru ynghyd â nifer o gynghorau tref a rhanbarthol eraill. *Building Resilience to Climate Emergency* yw'r enw a roddodd y grŵp i'w hunan a esblygodd o'r cyfarfodydd hynny. Mae'r tîm Un Ysgol Un Blaned wedi parhau i drefnu a chadeirio'r hyn sydd wedi dod yn gyfarfod nos pob deufis o fewn man cymunedol yn Llanfyllin, sef y *Cross Keys.* Mae'r cyfarfodydd yn denu 30 o bobl a mwy yn rheolaidd, ac rydym yn cynnal y cyfarfodydd bob yn ail naill ai fel cyfarfodydd gweithredol a sgyrsiau/gweithdai ar themâu perthnasol. Bydd y grŵp yn parhau y tu hwnt i Un Ysgol Un Blaned (OSOP) ac mae'r momentwm yn parhau i dyfu. Mae gweithgareddau hyd yn cynnwys cynnal *caffes atgyweirio* yn Llanfyllin a Chroesoswallt a datblygu grŵp gweithredu lleol gan gysylltu â'u un cyfagos. Cafodd menter compostio gymunedol ei chreu gan BRACE ac rydym wedi dechrau ymgysylltu ar draws y gymuned mewn digwyddiadau lleol, sioeau fferm, a llawer iawn mwy gydag anerchiadau, stondinau gwybodaeth a sgyrsiau anffurfiol.

8) Hyb garddwriaethol Llanfyllin.
Canlyniad meithrin perthynas gref gyda rhanddeiliaid cymunedol yw bod cyfle wedi codi i ddechrau hyb tyfu cymunedol a ddaeth o ganlyniad i ddefnyddio'r tir a'r cyfleusterau y tu cefn i'r institiwt cyhoeddus nad oedd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Bydd y grŵp sydd y tu cefn i hyn yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb o reoli perllan a gardd berlysiau Cae Bodfach ynghyd â datblygu'r institiwt fel hyb tyfu cymunedol, lle y gallwn arddio a rheoli'r mannau ymylol o fewn ac o amgylch Llanfyllin ar gyfer bywyd gwyllt a bioamrywiaeth.

4. <u>Budd</u>

Mae allbynnau'r prosiect yn cyd-fynd yn uniongyrchol â thargedau Cynulliad Cymru ar gyfer comisiwn Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr ydym wedi derbyn canmoliaeth oddi wrthynt. Rydym wedi cyfrannu'n arwyddocaol tuag at weithredu lleol i fynd i'r afael â materion o bwys o fewn eu meysydd pryder a dargedwyd. Y 2 brif bryder yng Nghymru a ddynodwyd trwy arolygon a gynhaliwyd gan y comisiwn yw newid hinsawdd ac ynysu cymdeithasol. Rydym wedi amlinellu ffyrdd o wneud y dirwedd yn fwy cydnerth, i ddarparu ar gyfer mwy o fywyd gwyllt, i ddiogelu

bioamrywiaeth ac i fod yn fwy cydnerth o ran yr hinsawdd. Ymhellach at hyn, mae Un Ysgol Un Blaned (OSOP) yn cynnig ffyrdd o gyflawni hyn mewn ffordd sy'n creu cyfleoedd ar gyfer dysgu, cymdeithasoli, a datblygiad personol boed yn ffurfiol ac yn anffurfiol.

5. Canlyniad

Y wers fawr i ni yw bod ein rhagdybiaeth ar ddechrau'r prosiect o flaen i waered. Mae gweithio gyda'r ysgol wedi bod yn allweddol wrth gael mynediad at y gymuned gyfagos. Am amrywiaeth o resymau, gwelwyd mai fel arall yr oedd hi. Y ffordd i gael mynediad at yr ysgol, yn ein hachos ni yma fodd bynnag yw trwy'r gymuned sy'n ei hamgylchynu. Golyga hyn fod yr amserlen diwrnod ysgol yn rhy dynn i ffitio unrhyw beth ynddo heblaw am rywbeth sy'n cyd-fynd bron yn berffaith gyda'r cynlluniau gwaith presennol. Hyd yn oed wedyn, mae'n anodd ei gydlynu heblaw bod athro hyblyg iawn sy'n gallu addasu fel y cawsom ni gyda Mr Jones ac astudiaethau tir.
Yn groes i hyn, llwyddodd y prosiect i wneud cynnydd gwych o fewn y gymuned a chanfod nifer o ffyrdd o gyrraedd pob oedran, gan gynnwys plant o oedran ysgol trwy weithio gyda grwpiau cymunedol, gan gynnwys troseddwyr ifanc, cybiau a sgowtiaid, rhieni a phlant bach, dyddiau gwirfoddoli cyffredinol ac ati.

Fel diweddglo i'r prosiect, aethom ati i feddwl yn ddiwyd am sut i drosglwyddo'r momentwm yr ydym wedi'i greu. Roedd gennym y bwriad o greu rhyw fath o werslyfr o'r cychwyn ond nid oedd yn amlwg sut yr oeddem yn mynd i wneud hyn tan hanner ffordd trwy flwyddyn 2. Aethom ati i ysgrifennu hanner cyntaf y llyfr mewn ffurf drafft gan gyhoeddi ychydig o gopïau ar gyfer adborth a gwerthusiad. Cynhyrchwyd *Small and Slow Solutions* wedi hynny mewn adolygiad llawn yn ystod tri mis olaf y prosiect. Rhoddodd hyn archif cyflawn o brofiadau i ni fyfyrio arnynt a'u defnyddio.

Trwy ardystiad Cynulliad Cymru, mae gennym y potensial i sicrhau fod copi o hyn yn mynd i bob ysgol yng Nghymru a'n hunig obaith yw y gallwn helpu i ysbrydoli ton o weithredu positif mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd cyfredol a gwirioneddol hwn a wynebwn.

6. Manylion Cyswllt y Prosiect

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Steven Jones ar Steven.jones@sector39.co.uk neu edrychwch ar un o'r gwefannau isod:-

- http://llanfyllin.sector39.co.uk/
- http://brace.cymru

arwain
Powys
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

7. Logos Partneriaid/Ariannwyr Cyfatebol

| Manylion y Prosiect | |
|---|---|
| Cyflwynwyd gan | *Sector 39* |
| Dyddiad Dechrau | Medi 2016 |
| Dyddiad Diweddu | Hydref 2019 |
| Arweinydd | |

| Manylion Ariannol | |
|---|---|
| Cyfanswm y Gwariant | £94,618.00 |
| Nawdd y Cynllun Datblygu Gwledig | £75,668.00 |
| Nawdd Cyfatebol | £18,950.00 |